COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 5ED EBRILL 2016 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W Bagnall, Mrs L. Edwards, R. Foreman, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson (Warden Coed), S. Williams.

SWYDDOG: Mrs C J Earley, Clerc y Dref

400/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Maer, Cynghorydd Dr S. Roy a'r Cynghorwyr Mrs G. Baker a C. Perry.

401/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

402/15 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2016 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

403/15 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

a. Cofnod 352/15 – Strategaeth Parcio Ceir Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

Cyflwynodd y Clerc atebion oddi wrth Iwan Davies a'r Cynghorydd Phil Edwards, CBSC, er gwybodaeth, yn cydnabod pryderon y Cyngor am y cynigion oedd am effeithio ar Fae Colwyn. Fe nodwyd y disgwylid i'r ymgynghori gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned yr effeithiwyd arnynt i ddigwydd yn ystod yr haf.

b. Cofnod 368/15(b) – Hysbysfyrddau:

i. Fe nodwyd bod aelodau Rhos wedi gwneud cais i roi peth o'u lwfans ward i grwp 'Mens' Shed' tuag at drwsio dodrefn y stryd yn ardal Llandrillo yn Rhos. Fe glustnodir yr arian yma fel na ellir ei ddefnyddio mewn mannau eraill o'r dref. Fe ddaw'r cyllid am drwsio cyffredinol a chynnal a chadw hysbysfyrddau mewn mannau eraill allan o gyllideb bresennol dodrefn y stryd.

Penderfynwyd gofyn i'r gwaith ar hysbysfwrdd Llandrillo yn Rhos cael ei gwblhau (peintio) fel mater o frys, oherwydd mae pobl yn ceisio gosod posteri ynddo eto.

ii Cyflwynodd y Clerc cais gan y Cynghorydd G. Baker i'w ystyried, sef bod lluniau a rhifau cyswllt y Cynghorwyr Tref yn cael eu dangos ar

hysbysfyrddau'r Cyngor. Fe nodwyd bod rhywfaint o bryder wedi cael ei datgan am ddiogelu data a'r posibilrwydd o alwadau gwirion neu alwadau yn hwyr y nos. Cyflwynodd y Clerc cynnig gan y Cynghorydd Baker bod gwybodaeth yn cael ei rannu trwy hysbysfyrddau neuaddau cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn agored i'r cyhoedd ac fe fyddai peth anhawster i'w diweddaru.

Penderfynwyd argymell cynnwys manylion cyswllt Cynghorwyr Tref yn yr Adroddiad Blynyddol sydd ar gael ar y wefan ac mewn copi caled (ar gais) a'i ddosbarthu trwy ganolfannau cymunedol / meddygfeydd ayb a bod hysbyseb bychan yn ymddangos ar bob hysbysfwrdd gyda rhif ffôn Neuadd y Dref a chyfeiriad y wefan.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Clerc gofyn i westeiwr ein gwefan a fyddai'n bosibl i bob Aelod cael cyfeiriad e-bost neilltuol i'r Cyngor Tref (fel y gellir arall gyfeirio at ei e-bost cartref) er mwyn arbed cyhoeddi cyfeiriadau e-bost personol.

iii Fe nodwyd bod meinciau picnic y Cyngor Tref ger Porth Eirias wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar gan Gynghorwyr Bagnall a Foreman. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried awgrym i ofyn 'Mens' Shed' a fuasent yn barod i wneud unrhyw fan atgyweiriadau (e.e. gosod bolltau newydd).

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â 'Mens' Shed' i ofyn a fyddai hwn yn brosiect y buasent yn gallu / cytuno i wneud .

Fe benderfynwyd ymhellach i sicrhau gyda chwmni yswiriant y Cyngor a fydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor Tref yn caniatáu i wirfoddolwyr 'Mens' Shed' cael cynnal a chadw dodrefn stryd.

404/15 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

a. Rheoliadau Traffig Dros Dro i gau'r Promenâd o Ffordd Marine i'r Pier rhwng 25/4/16 a 10/3/17 ar gyfer cam nesaf prosiect Glan y Môr.
b. Rhybudd o geisiadau am fannau parcio i bobl gydag anableddau yn Ffordd Dundonald a Ffordd Elwy.
c. Cynllun Gwaith Digonedd o Chwarae: Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan y cynghorydd Baker am y digwyddiad diweddar i randeiliaid gan y Clerc. Anogwyd yr Aelodau i ddarllen yr adroddiad ac i godi unrhyw faterion yn deillio ohono yn y cyfarfod nesaf pan obeithiwyd y byddai'r Cynghorydd Baker yn bresennol.
ch Fe nodwyd bod Swyddog o GBS Conwy wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod ymweld â safle gyda'r Cynghorydd Sir R. Parry a'i fod, yn ddiweddarach, wedi gwrthod y cais gan y Cynghorwyr Tref o Rhos i roi peth o'u lwfans ward tuag at brynu dau neu dri o feinciau picnic i blant gydag anableddau am nad oedd unrhyw dystiolaeth o angen. Fe nodwyd ymhellach bod y Cynghorydd Mrs Baker am ymweld ag Ysgol Gogarth (Llandudno) i wneud gwaith ymchwil ar anghenion plant gydag anableddau ac am adrodd yn i'r Pwyllgor yn y man.

Penderfynwyd bod y Clerc i gysylltu â Mr T. Gravett i ddatgan pryderon y Pwyllgor hwn am y modd y gwrthodwyd y cais.

d. Cyflwynodd y Clerc copi o neges e-bost, a rhoddodd adroddiad byr ar lafar yn dilyn yr ymweliad safle diweddar a alwyd gan Caroline Jones, Gwasanaethau Hamdden CBSC, parthed y defnydd o'r llyn cychod. Fe nodwyd fe hoffai CBSC rhoi amser i'r llyn cael bod yn llonydd yn dilyn y gwaith sylweddol a wnaed yn ddiweddar ac felly roeddynt yn amharod i gytuno i'r llyn cael ei wagio yn Hydref ar gyfer noson y tân gwyllt. Mi fydd yn angenrheidiol, felly, i gael safle dros dro ar gyfer y tân gwyllt eleni ac fe allai hyn ychwanegu at y costau o ddychwelyd y safle yn dilyn y digwyddiad. Disgwylir am amcan bris gan GBSC.

dd Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o lythyr gan breswylydd lleol at GBSC yn cwyno am gau'r maes parcio tymor hir yn Ffordd Lansdowne.

e Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth ychwanegol gan Mr V. Turner, CBSC, er gwybodaeth, yn gofyn am gadarnhad o gyllid rhannol gan y Cyngor Tref tuag at gostau dylunio'r gwaith i wella'r Promenâd yn Llandrillo yn Rhos. Fe nodwyd bod cyfarfod safle wedi cael ei drefnu ar gyfer 13^{eg} Ebrill i ystyried unrhyw atebion dros dro i'r pryderon cyfredol am ddiogelwch, oherwydd fe allai darganfod cyllid i gynnal unrhyw welliannau sylweddol cymryd nifer o flynyddoedd.

f. Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan Philip Vipond, CBSC, er gwybodaeth, yn rhoi diweddariad byr am y prosiect i osod cylchfan newydd gyda llawer o wahanol alluoedd yn Llandrillo yn Rhos ac yn gofyn am gadarnhad o gyfraniad y Cyngor Tref (£7,500) tuag at welliannau i gae chwarae Tan y Lan.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth oddi wrth GBSC

405/15 <u>Un Llais Cymru (ULlC):</u>

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth:

a. Rhybudd o gyhoeddiad o gyfarwyddyd newydd a ddiweddarwyd ar gyfer Trosi Asedau Cymunedol.

b. Adroddiad gan Mike Harriman, cynrychiolydd ULlC ar Grŵp Cyfeirio Rhandeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

c Hysbysiad am gyfarfod nesaf Pwyllgor y Cynghorau Mwy, sydd i'w gynnal ar 13 Ebrill 2016 (Ni fydd y Cyngor Tref yn aelod ar y dyddiad).

406/15 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

a Datganiad i'r Wasg gan RWE – Hydro Gogledd Cymru

b Taflen Newyddion Cymunedol RWE

c Wales & West Utilities – gwahodidiad i fynychu gweithdy i randeiliaid.

407/15 <u>Cynllunio</u>:

a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd gan GBSC i'w ystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC, er gwybodaeth.

c. Cyflwynodd y Clerc dogfen ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru i'w ystyried, parthed diwygio Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Penderfynwyd derbyn y ddogfen ymgynghori a'i nodi.

408/15 <u>Ceisiadau am Drwyddedau:</u>

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am unrhyw geisiadau am drwyddedau a restrwyd gan GBSC yn ddiweddar, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r rhestr o geisiadau am drwyddedau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.30 pm

…… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 5TH APRIL 2016, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: Cllr N Bastow, Vice-Chairman
Cllrs: W Bagnall, Mrs L Edwards, R Foreman, Mrs L Griffiths, Mrs M Jones, J Pearson (Tree Warden), S Williams

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

400/15 Welcome and Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from The Mayor, Cllr Dr S Roy, and from Cllrs Mrs G Baker and C Perry.

401/15 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

402/15 Minutes:

Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 15th March 2016.

403/15 Matters Arising from Previous Minutes:

a. Min. 352/15 – CCBC Car Parking Strategy:

The Clerk submitted, for information, responses from Iwan Davies and Cllr Phil Edwards, CCBC, acknowledging the Council's concerns about the proposals affecting Colwyn Bay. It was noted that consultation with affected Town and Community Councils is expected to take place during the summer.

b. Min. 368/15(b) – Notice Boards:

i. It was noted that the Rhos members have applied to donate some of their ward allowance funding to the Mens' Shed group towards refurbishment of street furniture in the Rhos on Sea area. This will be earmarked funding and cannot be used elsewhere in the town. General repairs and maintenance of notice boards elsewhere will come from the existing street furniture budget.

Resolved to request that the Rhos on Sea noticeboard be completed (painted) as a matter of urgency, as people are now trying to put notices on it again.

ii. The Clerk submitted, for consideration, a request from Cllr G Baker that Town Councillor photos and contact numbers be placed on the Town Council's notice boards. It was noted that some concern had been expressed about data protection and possible prank or late night calls. The Clerk tabled a proposal from Cllr Baker that information be shared via community hall notice boards instead. However, these are not open to the general public and may be difficult to keep updated.

Resolved to recommend that Town Councillors contact details are included in the Annual Report, which can be made available both on the website or in hard copy (on request) and circulated via community centres/ doctors surgeries etc. and that a small notice is placed on each Notice Board with the Town Hall telephone number and website address.

Further resolved to ask the Clerk to check with our web host whether it would be possible for each Member to have a dedicated town council e-mail address (which could be redirected to their home e-mail) to save personal e-mail addresses being published.

iii. It was noted that the Town Council's picnic benches near Porth Eirias have recently been inspected by Cllrs Bagnall and Foreman. Members were asked to consider a suggestion that the Mens' Shed group be asked if they would be willing to carry out any minor repairs (e.g. replacement bolts).

Resolved to ask that the Clerk contacts the Mens' Shed to enquire if this is a project they would be willing/able to assist with.

Further resolved to check with the Council's insurers whether work by volunteers from the Mens' Shed to maintain street furniture would be covered under the Town Council's public liability insurance.

404/15 <u>Conwy CBC</u>:

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence from CCBC:

a. Temporary Traffic Regulation to close the Promenade from Marine Road to the Pier between 25/4/16 and 10/03/17 for the next phase of the Waterfront project.
b. Notice of applications for disabled parking bays at Dundonald Road and Elwy Road.
c. Play Sufficiency Action Plan: A written report from Cllr Baker on the recent stakeholder event was tabled by the Clerk. Members were encouraged to read the report and raise any matters arising from it at the next meeting, when it was hoped Cllr Baker would be present.
d. It was noted that an Officer from CCBC had attended a site visit with County Cllr R Parry and had subsequently turned down a request by Rhos

Town Councillors to donate some of their ward allowances towards purchasing two or three child-sized disabled friendly picnic benches, due to a lack of evidence of need. It was further noted that Cllr Mrs G Baker will be visiting Ysgol Gogarth (Llandudno) to do some research on the needs of children with disabilities and will report back in due course.

Resolved that the Clerk contacts Mr T Gravett, to state the concerns of this Committee around the manner in which the request had been turned down.

e. The Clerk submitted a copy e-mail and gave a brief verbal report following a recent site meeting called by Caroline Jones, CCBC Leisure Services, regarding use of the boating lake. It was noted that CCBC would like to give the lake time to settle following the extensive recent works and are therefore reluctant to agree for it to be drained in October for this year's bonfire event. A temporary site outside of the lake will therefore need to be found for this year's bonfire, which may result in additional costs to make good the site after the event. A quotation is awaited from CCBC.

f. The Clerk submitted, for information, a copy of a letter from a local resident to CCBC to complain about the closure of the long-stay car park at Lansdowne Road.

g. The Clerk tabled, for information, further correspondence from Mr V Turner, CCBC, requesting confirmation of partial funding from the Town Council towards design costs for possible improvement works at Rhos on Sea promenade. It was noted that a site meeting has been arranged for 13th April to consider any temporary solutions to current safety concerns, as identifying funding to implement any larger scale improvements could take several years.

h. The Clerk tabled, for information, an e-mail from Philip Vipond, CCBC, giving a brief update on the project to install a new mixed ability roundabout at Rhos on Sea and asking for confirmation of the Town Council's contribution (£7,500) towards improvements at Tan y Lan playground.

Resolved to receive and note the correspondence from CCBC.

405/15 <u>One Voice Wales:</u>

The Clerk submitted, for information:

a. Notice of the publication of a new updated guide to Community Asset Transfer.

b. A report from Mike Harriman, OVW representative on the BCUHB Stakeholder Reference Group.

c. Notice of the next Larger Councils Committee meeting, taking place on 13 April 2016 (Town Council will no longer be in membership on that date).

406/15 <u>Other Correspondence:</u>

It was noted that the following items of correspondence available on request from the Clerk:

a. RWE Press Release – North Wales Hydro
b. RWE Community Newsletter
c. Wales & West Utilities – invitation to attend stakeholder workshop

407/15 <u>Planning:</u>

a. The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule A attached.

b. The Clerk submitted, for information, a copy of the Planning Decisions issued by CCBC.

c. The Clerk submitted, for consideration, a Welsh Government consultation document regarding revision of Planning Policy Wales Chapter 6: The Historic Environment.

Resolved to receive and note the consultation document.

408/15 <u>Licensing Applications:</u>

The Clerk submitted, for information, notice of any licensing applications listed by CCBC in recent weeks.

Resolved to receive and note the licensing applications listing.

The meeting closed at 7.30 p.m.

…..…… Chairman